

Meini Prawf Ariannu:

Sefydliad Wesleyan

Sefydlwyd y Sefydliad Wesleyan yn 2017 i barhau i gefnogi amrywiol achosion da drwy'r DU i gyd, ac yn yng Nghymru.

Mae'r Sefydliad Wesleyan yn darparu cymorth yn y meysydd a ganlyn:

- gwella iechyd a lles y gymuned leol
- hyrwyddo addysg a dysgu gydol oes
- creu datrysiadau arloesol i heriau cymdeithasol, gan hyrwyddo cydlyniant cymunedol a datblygu cadernid mewn cymunedau.

Grantiau ar gael

Mae dau fath o grantiau o wahanol faint ar gael i sefydliadau sy'n gweithio ar draws Gymru:

Grantiau Bychain:

- Gall grwpiau cymunedol lleol â chyfansoddiad ac elusennau cofrestredig ag incwm sy'n llai na £250,000 ymgeisio am grantiau o hyd at £2,000

Grantiau Mawrion:

- Gall grwpiau cymunedol â chyfansoddiad ac elusennau cofrestredig ag incwm sy'n llai na £500,000 ymgeisio am grantiau o rhwng £2,000 a £10,000.

Os ydych chi'n ceisio am grantiau mawr, nodwch:

- Ni ddylai ceisiadau grant fod yn fwy nag 20% o incwm blynyddol y sefydliad (yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf)
- Dylai unrhyw gais am gyflog, cyfarpar a chostau gwirfoddolwyr gael ei gyllidebu'n eglur ac fe ddylid ond ei ddefnyddio ar gyfer y prosiect yr ymgeisir amdano. Gall uchafswm o 10% o'r costau craidd cael eu hariannu
- Dylai ymgeiswyr allu darparu 2 flynedd o gyfrifon, felly, mae angen i sefydliadau fod wedi bodoli am o leiaf 2 flynedd.

Pwy a all ymgeisio?

Elusennau, grwpiau di-elw â chyfansoddiad a mudiadau sy'n cynnal prosiectau a gweithgareddau er budd y gymuned leol (e.e., clybiau ar ôl ysgol, clybiau cinio, caffis cof, gwasanaethau cyfeillio ac ati).

Bydd blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd yn gallu dangos orau eu bod yn gallu cwrdd ag amcanion a blaenoriaethau'r gronfa, yn ogystal ag ymgeiswyr tro cyntaf.

Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais drwy wefan Sefydliad Cymunedol Cymru.

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y., ar gyfer costau a achoswyd cyn cael y llythyr yn cynnig grant a'r telerau ac amodau a lofnodwyd;
- Bydd ymgeiswyr yn clywed canlyniad eu cais o fewn 16 wythnos wedi'r dyddiad cau;

- Dylid cynnwys e-bost a ddefnyddir yn rheolaidd, gan mai proses cyfan gwbl ar-lein yw hon, a bydd gohebiaeth drwy e-bost;
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu dogfennau priodol i ategu'u cais;
- Bydd hi'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu diweddariad cryno ar ôl 6 mis o ddechrau'r prosiect, a llenwi ffurflen fonitro ar ddiwedd y prosiect.

NID yw grantiau ar gael ar gyfer:

- Unigolion neu unig fasnachwyr;
- Adeiladu cyfalaf;
- Hyrwyddo gweithgareddau crefyddol neu wleidyddol;
- Ysgolion, eglwysi, cynghorau plwyf neu Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon, oni bai y dangosir fod yna fudd cymunedol ehangach;
- Lles anifeiliaid, oni bai bod y prosiect o fudd i bobl (e.e., cynlluniau marchogaeth i bobl anabl);
- Grwpiau â mwy na 12 mis o gostau cynnal wrthgefn;
- Disodli rhwymedigaeth statudol yn uniongyrchol, e.e., o fewn addysg, y GIG neu lywodraeth.
- Prosiectau sy'n canolbwyntio ar y celfyddydau a'r cyfryngau
- Clybiau a chymdeithasau chwaraeon (oni bai bod y prosiect o fudd i bobl anabl)
- Chwaraeon cyswllt, megis paffio
- Sefydliadau sydd wedi dangos eu bod wedi rheoli unrhyw grantiau blaenorol yn wael neu sy'n rhoi arwydd o iechyd ariannol gwael
- Talu diffyg ariannol neu ad-dalu benthyciadau
- Dibenion nawdd yn unig neu gyllid dim ond ar gyfer costau digwyddiadau codi arian.